***CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL***

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 8fed Gorffennaf 2024**
**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 08th July 2024**

**Yn Bresennol/Present:**
Cynghorwyr/Councillors Eileen Curry, Beth Davies, Douglas Davies, Heddwen Davies, Keith Evans, Peter Evans, Elen Grantham, Andrew Howell, Gethin Jones, Sue Lloyd, Eifion Rees a/and Chynghorydd Sir De Llandysul / County Councillor Llandysul South Keith Evans a/and Chynghorydd Sir Gogledd Llandysul a Throedyraur/ County Councillor Llandysul North Troedyraur Maldwyn Lewis
**Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Mike Hotson/ Apologies for absence were received from Cllr Mike Hotson.

**Ymweliad / Visit**
Ymunodd Paul Williams, Rheolwr Cyfleuster Adeiladau, Shaun Bettell, Uwch-Swyddog Glanhau a Linda James, swyddog cymorth Gwasanaeth o Gyngor Sir Ceredigion â'r cyfarfod Zoom i drafod darpariaeth y toiledau wrth ymyl y maes parcio yn Llandysul yn y dyfodol, ac i weld a fyddai noddwr neu rywun yn fodlon ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros redeg y ddarpariaeth o ddydd i ddydd a'i ariannu.
Cyflwynwyd y costau dangosol canlynol i'r Cynghorwyr.
Cost glanhawr, 1 awr y dydd am 7 niwrnod yr wythnos, yn unol â chostau amcangyfrifedig 2024/25 fyddai tua £4200
Aeth ymlaen i ddarparu costau dangosol ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol flaenorol, gweler isod:

| | | |
|---|---|---|
| Cost trwsio ar gyfer | 2022/23 - £753 | 2023/24 £546 |
| Costau trydan | £481 | £1333, anfonwyd biliau dros y 2 flynedd ddiwethaf ar sail amcangyfrifon |
| Costau dŵr | £957 | £4 |
| Taliadau gwasanaeth | £290 | £70 |
| Taliadau Gwasanaeth eraill | £500 | £500 |
| Cyfanswm y costau rhedeg | **£2981** | **£2855** |

**Sylwer. Nid yw'r costau uchod yn cynrychioli cyfanswm y gost o ddarparu'r gwasanaeth, megis costau cyfreithiol, yswiriant ac ati.**

Estynnwyd gwahoddiad i'r Cynghorwyr anfon rhestr o gwestiynau ymlaen at y Cyngor ar ôl iddynt drafod y mater ymhellach. Ni wneir defnydd mawr o'r toiledau ac ni fyddent yn cyfiawnhau'r cam o osod system talu wrth y drws yno.

Lluniwyd rhestr o gwestiynau cychwynnol ac anogwyd yr aelodau i roi ystyriaeth bellach i'r mater

a chynnig cwestiynau ychwanegol i'r Clerc i'w hanfon ymlaen i Geredigion er mwyn cael eu hymateb.  Byddai'n rhaid i'r gwaith o drefnu les ar gyfer y toiledau fynd trwy'r Adran Ystadau.

Caiff yr eitem hon a rheolaeth bosibl y toiledau yn Llandysul eu cynnwys ar agenda cyfarfod mis Medi 2024.
Nododd swyddogion Ceredigion y byddent yn rhoi adroddiad am y drafodaeth a gafwyd ynghylch trosglwyddiad posibl rheolaeth y toiledau, gan ymateb i gwestiynau pellach gan y Cyngor Cymuned.

Paul Williams Buildings Facility Manager, Shaun Bettell, Senior Cleaning Officer and Linda James, Service support officer from Ceredigion County Council joined the Zoom meeting to discuss the future of the provision of toilets adjacent to the car park in Llandysul and to see whether if a sponsor or anyone would take over the funding and day to day running of the provision..
They provided  Councillors with the following indicative costings.
Cost of cleaner 1hour a day 7days a week at 2024/25 estimated costs would be circa £4200
He went on to provide illustrative costings for the previous two financial years, see below:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Repair cost for | 2022/23 - £753 | 2023/24 £546 | |
| Electricity costs | £481 | £1333 | last 2 years had been billed on estimates |
| Water costs | £957 | £4 | |
| Service charges | £290 | £70 | |
| Other Service charges | <u>£500</u> | <u>£500</u> | |
| Total running costs | **£2981** | **£2855** | |

**N.B. Above costs do not represent total service provision costs, such as legal, insurance etc.**

Councillors were invited to forward a list of questions to the Council once they had discussed the matter further. Footfall and use of the toilets aren't great and it would not warrant a door payment system there.

A list of initial questions was compiled and members were encouraged to give the matter further consideration and provide additional questions for Clerk to forward to Ceredigion for their response.  The setting up of a lease for the toilets would have to go through the Estate Department.

This item and the potential management of the toilets at Llandysul to be put on the agenda for September 2024.
Ceredigion officers advised that they would provide an account of the discussion that took place on the potential transfer of management of the toilets and responding to further questions from the Community Council.

**<u>Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest</u>**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau./No declarations of interest were given.

**Adroddiad/Report**

Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies 8176, yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. / A report was received from PuCSO Anwen Davies 8176 providing a Crime and Incident Update for the Councils area.
Isod, gweler rhestr o'r troseddau / digwyddiadau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi. / Below is a list of crimes / incidents that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards.

**Adroddiad Mai/May Report**

**Adroddwyd am 12 trosedd yn ward Tref Llandysul a 7 trosedd yn ward Pontsiân a Chapel Dewi ym mis Mehefin. / 12 crimes were reported in Llandysul Town Ward and 7 crimes in Pontsian and Capel Dewi ward in June.**

**Ward Tref Llandysul Town Ward**

Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harassment - 2
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd – Domestig /– Domestics -3
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd-Dwyn – Crime – Burglary – 1
1 adroddiad o ddwyn mewn eiddo gwag/1 report of burglary at a vacant property
Difrod Troseddol/Criminal Damage – 2
2 adroddiad am ddifrod i gerbydau /2 report of damage to vehicles
Trosedd - Ymosodiad /Crime- Assault -4
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other

**Ward Pontsiân a/and Capel Dewi Ward**

Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harassment - 4
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd – Domestig /– Domestics -2
Trosedd-Dwyn – Crime – Burglary – 1
1 adroddiad o ddwyn arwydd/1 report of theft of sign
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti-Social Behaviour – 1
Adroddiad am feic modur swnllyd /Report of noisy motorbike
Trosedd – Damwain ffordd /Crime – Road Traffic Collision – 2
1 adroddiad am dractor a char – dim anafiadau /1 report of tractor and car non injury
1 adroddiad am ddamwain ffordd unigol- mận anafiadau/1 report of single road traffic minor injury

**Mae ymholiadau yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r byrgleriaethau a welwyd yn ddiweddar. Os oes gan unrhyw un unrhyw wybodaeth, dylent gysylltu â PCSO Anwen Davies neu ffonio 101.**

**Ongoing enquiries are being carried out in relation to the recent burglaries. If anyone has any information to contact PCSO Anwen Davies of ring 101.**

Os bydd gan unrhyw un o'r Cynghorwyr unrhyw gwestiynau penodol ar ôl cael yr adroddiad misol, penderfynwyd y dylent gysylltu â'r clerc cyn y cyfarfod er mwyn iddi lunio rhestr o gwestiynau ar gyfer y PCSO.

Penderfynwyd hefyd y dylid gofyn i'r PCSO gadw llygad ar le chwarae Plant Llandysul gan bod llawer o ddifrod troseddol yn cael ei gyflawni ar yr offer chwarae.

It was deceided that if any of the Councillors had any specific questions after receiving the monthly report that they contact the clerk prior to the meeting for her to compile a list of questions to the PCSO.

It was also decided to ask the PCSO to keep an eye on the Llandysul Children's Play area as a lot of criminal damage was happening to the play apparatuses.

**Cofnodion/Minutes**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10/05/24 / Minutes of monthly meeting held on 10/05/24 were confirmed

| | |
|---|---|
| **Materion yn Codi: -** | **Matters Arising: -** |
| **<u>Hysbysfyrddau yn y Maes Parcio</u>**<br>Archebwyd persbecs gan ND signs. | **<u>Car park Noticeboards</u>**<br>Perspex had been ordered from ND signs. |
| **<u>Nacro</u>**<br>Adroddodd y clerc nad oedd hi wedi archebu stondinau codi newydd ar gyfer y Cyngor Cymuned yn barod ar gyfer y digwyddiad ym mis Gorffennaf gan ei bod yn aros am ganiatâd gan y Cyngor Sir i ddefnyddio llun o Landysul arnynt.<br>Bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn ysgrifennu adroddiad am weithgareddau'r Cyngor yn ystod 2023/24 a fyddai ar gael yn ystod y digwyddiadau hyn. | **<u>Nacro</u>**<br>The clerk reported that she had not ordered new pop-ups for the Community Council ready for the July event as she was waiting permission from the County Council to use a photograph of Llandysul on them.<br>The Chair and Clerk to write a report on the activities of Council in 2023/24 that would be available at these events. |
| **<u>Aelod o'r cyhoedd</u>**<br>Nid oedd y clerc wedi gwahodd yr aelod o'r cyhoedd yr oedd y Cyngor wedi penderfynu cyflwyno tarian y Cyngor iddo er mwyn cydnabod ei ddewrder wrth achub bywyd aelod o'r cyhoedd a oedd wedi cwympo i mewn i afon Teifi gan nad oedd ganddi ei fanylion cyswllt. Rhoddwyd y manylion cyswllt a gofynnwyd i'r Clerc wahodd y derbynnydd i gyfarfod mis Medi i gael Tarian y Gymuned am ei weithred ddewr ac anhunanol. | **<u>Member of the public</u>**<br>The clerk had not invited the member of the public that the Council had resolved to provide him with the Council shield in recognition of his bravery in saving a member of the public that had fallen into the Teifi as she did not have his contact details.<br>Contact details were provided and the Clerk asked to invite the recipient to the September meeting to receive a Community Shield for his brave and selfless act. |
| **4) Ceisiadau Ariannol:**<br>Nid oedd unrhyw geisiadau ariannol. | **4) Funding Applications:**<br>There were no funding applications. |
| **<u>Gohebiaeth</u>**<br>Cafwyd llythyrau o ddiolch a gwerthfawrogiad o'r rhoddion ariannol a gafwyd, gan<br>Gymdeithas Chwaraeon Llandysul<br>Llandysul Pontyweli Ymlaen | **<u>Correspondence</u>**<br>Letters of thanks and appreciation for the financial donations received were received from<br>Cymdeithas Chwaraeon Llandysul<br>Llandysul Pontyweli Ymlaen |
| **5) Materion i'w Trafod**<br>**<u>Lle Chwarae Plant Llandysul</u>**<br>Hysbyswyd y Cynghorwyr gan y clerc bod sbring newydd ar gyfer un o'r gatiau i gerddwyr yn y lle chwarae wedi cael ei archebu, ac y byddai'n costio tua £490 + Taw fesul gât.<br>Disodlwyd 2 gawell a dwy sedd siglen ar gyfer y siglenni i'r plant hŷn.<br>Roedd Rospa wedi ymweld â'r parc i gynnal eu harchwiliad blynyddol. Bydd y clerc yn dosbarthu'r adroddiad ar ôl iddi ei gael i'r holl Gynghorwyr. | **5) Matters for Discussion**<br>**<u>Llandysul Children's Play area</u>**<br>The clerk informed the Councillors that the replacement spring for one of the pedestrian gates in the play area at a cost of circa £490 + Vat per gate had been ordered.<br>2 new cradles and two swing seats for the older children swings had been replaced.<br>Rospa had visited the park for their annual inspection. The clerk to |

| | |
|---|---|
| | circulate the report once it had been received to all Councillors. |
| **Meinciau**<br>Gosodwyd meinciau yng Nghapel Dewi. Nododd Cynghorwyr bod angen paentio'r meinciau yn wardiau Llandysul a Phontsiân. Penderfynwyd y dylai'r Cynghorwyr roi rhestr o'r meinciau yn eu hardal y mae angen eu paentio neu eu trwsio erbyn y cyfarfod nesaf. Ar ôl cael y rhestr, penderfynwyd y byddai modd ystyried rhaglen ddisodli ar gyfer y dyfodol, gyda'r posibilrwydd o'u cyfnewid am feinciau plastig i gyd. | **Benches**<br>Benches had been put in place in Capel Dewi.<br>Cllrs expressed that the benches in Llandysul and Pontsian wards needed painting. It was decided that the Cllrs provide a list of benches in their areas that needed painting or repair by the next meeting. It was decided that once the list is received that a forward replacement programme with the possibility of changing them all to plastic benches could be considered. |
| **Sedd Wag Llandysul**<br>Roedd y clerc wedi cael e-bost gan Ben Scott-Jones yn mynegi diddordeb mewn bod yn Gynghorydd yn Ward Tref Llandysul. Penderfynwyd diolch iddo am fynegi diddordeb a'i wahodd i'n cyfarfod ym mis Medi. | **Llandysul Vacant Seat**<br>The clerk had received an email from Ben Scott-Jones expressing an interest in becoming a Councillor in the Llandysul Town Ward. It was decided to thank him for his interest and invite him to our September meeting. |
| **Plannu**<br>Roedd Farmyard wedi plannu blodau ac roedd Mark Wilson wedi dechrau eu dyfrio. | **Planting**<br>Farmyard had planted flowers and Mark Wilson had started to water them. |
| **Materion Ward Brys** | **Urgent Ward Matter** |
| **Maesymeillion**<br>Estynnwyd diolch am y ffaith bod y twll mawr yn y ffordd ym Maesymeillion wedi cael ei drwsio. | **Maesymeillion**<br>Gratitude was expressed that the large pothole in Maesymeillion had been repaired. |
| **Capel Dewi**<br>Roedd arwydd Capel Dewi ar y ffordd i mewn o Rydowen wedi dilannu. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.<br>Mae clymog Japan yn broblem ar y ffordd rhwng Penwern a Phenbanc.<br><br>Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir am y ddau fater.<br>Cynhelir Chwaraeon Blynyddol Capel Dewi ar 3 Awst 2024. Estynnir gwahoddiad i'r holl Gynghorwyr fynychu. | **Capel Dewi**<br>The Capel Dewi sign on the way in from Rhydowen had disappeared. The clerk to contact the County Council.<br>Japanese knotweed is a problem on the road between Penwern and Penbanc.<br><br>Clerk to contact the County Council on both matters.<br>The Annual Sports in Capel Dewi will held on the 3 August 2024. All Councillors were invited to attend |
| **Llandysul**<br><br>Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i weld a fyddent yn fodlon glanhau'r ffordd o Barc yr Ynn i lawr i waelod Heol Llynyfran gan bod dail a gwydr arni. | |

| | |
|---|---|
| Bydd y clerc yn ysgrifennu llythyr ar ran y Cyngor Cymuned at Elin Jones AS ynghylch y diffyg gwasanaethau bws yn Llandysul. Esboniodd Cyng Keith Evans bod Cyngor Sir Gâr wedi trefnu gwasanaeth Bws bach y Wlad. Dywedodd y byddai Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen trwy eu hadain trafnidiaeth gymunedol, Dolen Teifi, yn cael arian i brynu dau gerbyd, ond ni fydd hyn yn digwydd yn fuan.<br><br>Cynhelir cyfarfod cyn gwneud cais yng Ngwesty Porth Llandysul ar 18 Gorffennaf 2024 rhwng 16.30 a 18.30 gan Ddatblygwyr hen safle Dyffryn Teifi i amlinellu eu cynigion ar gyfer datblygiad y safle yn y dyfodol. Roedd y clerc wedi dosbarthu'r holl ddogfennau cefndir perthnasol i'r Cynghorwyr.<br><br>**Adroddiad gan Gynghorwyr Sir**<br>Cafwyd gohebiaeth ar ffurf neges e-bost, yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans ward De Llandysul yn ystod y cyfnod rhwng 11 Mehefin 2024 ac 8 Gorffennaf 2024, ac fe'i nodwyd. Rhoddodd Cynghorydd Maldwyn Lewis amlinelliad o'i waith yn ward Gogledd Llandysul a Throedyraur<br><br>**Gohebiaeth**<br><br>Roedd y clerc wedi dosbarthu manylion yr holl gyrsiau hyfforddiant sydd ar gael i Gynghorwyr.<br><br>Cafwyd Clerks and Councils Direct ac fe'i nodwyd.<br><br>**Cynllunio**<br><br>Ni chafwyd unrhyw Geisiadau Cynllunio.<br><br>**Gwybodaeth Ariannol**<br><br>Llinos Jones – ysgrifennwyd siec am y swm o £117.78 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Mehefin.<br>Wicksteed – ysgrifennwyd siec am y swm o £701.78 am brynu 2 sedd cawell ar gyfer siglen a 2 sedd wastad, a derbyniwyd y dylid | **Llandysul**<br><br>It was requested that the clerk contact the County Council to see if they would clean the road from Park yr Ynn down to the bottom of Llynyfran Road as it had leaves and glass on it.<br>The clerk to write a letter on behalf on the Community Council to Elin Jones SM with regards to the lack of service buses in Llandysul. Cllr Keith Evans explained that Bws bach y Wlad had been put in place by Carmarthenshire County Council. He advised that Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen through their community transport arm, Dolen Teifi were to receive money to buy two vehicles but this was in the future and not imminent.<br><br>A Pre application meeting would be held at the Porth Hotel Llandysul on 18 July 2024 from 16.30-18.30 by the Developers of the former Ysgol Dyffryn site to outline their proposals for the future development of the site. The clerk had circulated Councillors with all the relevant background documents.<br><br>**Report by County Coucillors**<br>E-mail correspondence was received providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 11 June 2024 to 08 July 2024 and noted. Cllr Maldwyn Lewis provided an outline of his work in the Llandysul North and Troedyraur ward<br><br>**Correspondence**<br><br>The clerk had circulated all training courses available to Councillors.<br><br>Clerks and Councils Direct were received and noted.<br><br>**Planning**<br><br>No Planning Applications were |

| | |
|---|---|
| ei thalu.<br>Rospa – Cafwyd anfoneb am y swm o £122.40 am yr archwiliad blynyddol o'r lle chwarae i blant yn Llandysul ac ysgrifennwyd siec.<br>Newton Flag & Baner Makers Ltd – ysgrifennwyd siec am y swm o £80.40 am brynu 3 baner Heddwch D-Day, a derbyniwyd y dylid ei thalu.<br>Neuadd Tysul – Ysgrifennwyd siec i Neuadd Tysul am £1540. Roedd hwn am y Rhodd i'w roi i Nacro am £540 (0012370 a'r Carnifal am £1000 (001228) gan nad oes gan y ddau endid gyfrif banc.<br>Ron Foulkes – Ysgrifennwyd siec am y swm o £250 am Archwilio Cyfrifon Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24.<br>Medway Galvanising Company Ltd – cafwyd anfoneb am y swm o £594 i brynu sbring ar gyfer un o'r gatiau yn y Lle Chwarae Plant.<br>Keith Evans – Ysgrifennwyd siec am y swm o £106.68 i brynu deunyddiau er mwyn sicrhau'r baneri ar Lôn Wesley. | received.<br><br>**<u>Financial Information</u>**<br><br>Llinos Jones – Cheque for £117.78 was written for June translation.<br>Wicksteed – A cheque was written for £701.78 for the purchase of 2 cradle seat swings and 2 flat seats and passed for payment.<br>Rospa – An invoice for £122.40 was received for the annual inspection of the Children's playarea in Llanysul and a cheque was written.<br>Newton Flag & Baner Makers Ltd – A cheque was written for £80.40 for the purchase of 3 D-Day flags of Peace and passed for payment.<br>Tysul Hall – A cheque was written to Tysul Hall for £1540. This was for the Donation give to Nacro for £540 (0012370 and the Carnival for £1000 (001228) as both entities did not have a bank account.<br>Ron Foulkes – A cheque was written for £250 for Auditing the Councils Annual Accounts for 2023/24.<br>Medway Galvanising Company Ltd – an invoice had been received for £594 for the purchase of a spring for one of the gates in the Children's Playarea.<br>Keith Evans – Cheque was written for £106.68 for the purchase of materials for securing the bunting that's located on Lon Wesley. |

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

*Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/*
*Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-*

| | | *£ c/£ p* | *Rhif siec Cheque number* |
|---|---|---|---|
| Wicksteed | Siglen/Swings | ` 701.78 | 001254 |
| Rospa | Park Inspection | 122.40 | 001255 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 117.78 | 001256 |
| Newton Flags | D Day Flags | 80.40 | 001257 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc July and Aug | 1154.80 | 001258 |
| Neuadd Tysul | Cheque for Carnival and Nacro | 1540.00 | 001259 |
| Ron Foulkes | Awdit/Audit | 250.00 | 001260 |
| Joseph Ash | Sprig for gate | 594.00 | 001262 |
| Keith Evans | SWR materials | 106.68 | 001263 |
| HMRC | Cyflog y Clerc July and Aug | 289.20 | 001264 |